Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Sealand
# Farm Road
# Sealand
# Glannau Dyfrdwy
# Sir y Fflint
# CH5 2HH

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Sealand

Mae Ysgol Gynradd Sealand yng Nglannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint. Mae 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 22 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae'r ysgol yn trefnu ei disgyblion yn wyth dosbarth un oedran, yn cynnwys y meithrin.

Mae tua 35% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol yn datgan bod gan ryw 19% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig; mae hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae Saesneg yn ail iaith i ryw chwarter y disgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2010. Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf ym mis Mai 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Sealand yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy’r ysgol.  Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn unigol.  Mae disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a’r rheiny sy’n siarad Saesneg fel ail iaith yn cyflawni’n dda.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.  Maent yn garedig a gofalgar tuag at ei gilydd, ac yn dangos lefelau cryf o gydweithredu.  Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr â pharch a chwrteisi ac maent yn barod iawn i drafod eu gwaith a’u llwyddiannau gydag ymwelwyr yn hyderus.

Mae perthnasoedd gweithio rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn.  Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo’n hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau.  Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i’r heriau a osodir gan athrawon.

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sydd â threfniadau cadarn i gefnogi lles disgyblion, wedi’i gefnogi’n effeithiol gan ystod eang o ymyriadau ar gyfer y rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy’n sicrhau cyfeiriad strategol clir i’r ysgol.  Mae hyn yn meithrin diwylliant sy’n hyrwyddo hapusrwydd, lles a chyflawniad disgyblion yn dda iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau

A2 Canolbwyntio gweithgareddau monitro yn graffach ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion

A3 Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol wrth herio’r ysgol i wella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar a medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dda. Mae cyfradd y gwelliant a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ran datblygu eu medrau siarad yn nodedig. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn glir a hyderus, gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa addas. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen a gwnânt gynnydd da bob blwyddyn. Defnyddiant ystod eang o strategaethau ffoneg yn hyderus i ddatrys geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn trafod cynnwys eu llyfrau'n frwdfrydig ac yn cyfeirio at gymeriadau a digwyddiadau penodol yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn, ac yn dechrau ehangu ar eu syniadau yn effeithiol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio eu dychymyg yn dda i ail-ddweud y stori am sut cafodd y byd ei greu, 'On the third day of the week the piper began to bang his silver cymbals like storm waves clashing and the forests appeared flowing like water over the land.'

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n huawdl ac yn hyderus ac yn ymuno â thrafodaethau yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trafod eu gwaith ag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa gynyddol eang. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus. Maent yn trafod amrywiaeth o destunau gan eu hoff awduron yn dda ac yn cymhwyso medrau ymchwil yn gywir, er enghraifft i lunio adroddiadau anghronolegol ar fforestydd glaw. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus, ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o genres. Mae llawer o ddisgyblion yn rhannu eu hemosiynau'n dda wrth ysgrifennu'n greadigol. Maent yn defnyddio geirfa ddiddorol ac yn trefnu eu syniadau'n llwyddiannus. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae disgybl yn ysgrifennu cofnod dyddiadur pwerus am farwolaeth plentyn, 'Knowing that she slipped from this world on a concrete-like sofa, along with a flickering T.V. and crumpled tissues, brings a tear to peoples' eyes.' Mae llawer o ddisgyblion yn golygu eu gwaith yn fedrus i wella ansawdd eu hysgrifennu disgrifiadol. Defnyddiant fedrau llythrennedd a ddysgwyd mewn gwersi iaith yn llwyddiannus ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fondiau rhif sylfaenol a gallant roi rhifau yn eu trefn i fyny i 50 yn gywir. Maent yn meddwl trwy broblemau geiriau syml yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae eu dealltwriaeth o werth lle sylfaenol yn gadarn a gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu rhifau tri digid gan ddefnyddio dulliau ysgrifenedig ffurfiol. Maent yn mesur yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol, er enghraifft wrth fesur gwrthrychau o gwmpas yr ysgol. Defnyddiant siartiau cylch yn effeithiol i gofnodi gwybodaeth am fywyd go iawn, er enghraifft wrth goladu data ar gyfer prosiect ailgylchu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gwybodaeth a medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'n llwyddiannus. Defnyddiant ddulliau meddwl ac ysgrifenedig i luosi a rhannu'n dda. Mae llawer ohonynt yn nodi ac yn mesur onglau'n gywir ac yn defnyddio eu gwybodaeth am siâp i greu modelau mathemategol tri dimensiwn. Defnyddiant eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion yn dda. Yn gyffredinol, mae bron pob un o'r disgyblion yn trosglwyddo eu medrau rhifedd yn dda i feysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd effeithiol o'u gwybodaeth am fathemateg i gynllunio taith gan ddefnyddio amserlenni ar gyfer gwahanol fathau o gludiant.

Trwy'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn ystod gweithgareddau cyfri. Wrth ymweld ar ysgolion coedwig ar antur gyda 'Fflic a Fflac', sef cymeriadau o lyfr stori Cymraeg, mae disgyblion yn canu caneuon Cymraeg â brwdfrydedd ac yn cymharu gwahanol ffrwythau y maent yn eu hoffi yn llwyddiannus gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafaredd disgyblion yn adeiladu'n dda ar y medrau a ddysgwyd yn flaenorol. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig amdanyn nhw eu hunain a'u teulu. Maent yn ymestyn eu hatebion i gynnwys ymatebion negyddol. Mae ysgrifennu disgyblion yn datblygu yn unol â disgwyliadau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas, maent yn darllen testunau syml gyda lefel o ddealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n cefnogi eu dysgu ehangach yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn gwella eu gwybodaeth am fondiau rhif trwy ateb a chofnodi atebion yn llwyddiannus gan ddefnyddio bwrdd rhyngweithiol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus ar draws ystod eang o gymwysiadau. Erbyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cyflwyniadau rhyngweithiol diddorol, sy'n defnyddio ystod eang o gymwysiadau gwahanol. Er enghraifft, defnyddiant dechnoleg sgrin werdd gyda gwahanol gymwysiadau i greu blogiau teithio addysgiadol am leoedd i ymweld â nhw yng Nghymru.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach mewn bywyd ac yn rhoi enghreifftiau synhwyrol o'r rhain, fel pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n egnïol. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth dda o beth yw ffordd iach o fyw pan fyddant yn creu llyfryn gwybodaeth arm bwysigrwydd ymarfer corff a'i effaith ar y galon. Mae llawer o ddisgyblion yn bwyta byrbrydau iach, fel ffrwythau neu lysiau, amser egwyl. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn yr ysgol ac yn ystod gweithgareddau allgyrsiol, fel clybiau chwaraeon.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn garedig a gofalgar tuag at ei gilydd ac yn dangos lefelau cryf o gydweithredu. Maent yn ystyriol wrth wrando ar safbwyntiau pobl eraill ac yn barod i rannu eu meddyliau a’u syniadau. Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr â pharch a chwrteisi ac yn trafod eu gwaith a’u llwyddiannau gydag ymwelwyr yn hyderus. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos ymddygiad heriol, ond bron ym mhob achos, maent yn ymateb yn dda i staff ac yn cydymffurfio’n gyflym â disgwyliadau’r ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, gwaharddwyd ychydig iawn o ddisgyblion gan yr ysgol o ganlyniad i’w hymddygiad.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn hyderus mewn trafodaethau dosbarth cyfan. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â’u dysgu yn frwdfrydig ac yn bwrw ymlaen â’u tasgau yn dda ar y cyfan. Maent yn dal ati i ganolbwyntio’n dda yn y dosbarth ac mewn gwasanaethau, ac yn parhau i ganolbwyntio wrth weithio’n unigol neu gyda disgyblion eraill.

Mae disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau yng nghymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn perthyn i sawl grŵp llais y disgybl, fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y Criw Cymraeg ac E-Gadetiaid. Mae disgyblion yn cymryd y rolau hyn o ddifri ac yn mwynhau eu gwaith. Mae mentrau llwyddiannus diweddar gan y grwpiau hyn yn cynnwys rhoi cyngor cadarn i’w cyfoedion ar bwysigrwydd peidio â rhannu data personol na chyfrineiriau.

Mae disgyblion yn ymwybodol fod angen mynychu’r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae presenoldeb wedi gwella dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae’r gwelliant cyffredinol o sylfaen gymharol isel.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthnasoedd gweithio rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol ac yn hynod adeiladol. Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo’n hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau. Mae eu cyflwyniadau fel arfer yn fywiog ac yn annog disgyblion i gyflawni cystal ag y gallant. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir, yn gosod cyflymdra chwim i’r dysgu ac yn rhannu amcanion dysgu’n dda gyda disgyblion.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad a rhyngweithio disgyblion yn effeithiol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn barchus a sylwgar, ac maent yn cynorthwyo’i gilydd yn dda yn eu dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni’r holl ofynion statudol ac yn darparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer dysgu’r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio testunau difyr sy’n dal dychymyg disgyblion ac yn gwneud dysgu’n gyffrous. Mae ansawdd profiadau dysgu yn y cyfnod sylfaen yn dda ac yn diwallu anghenion y disgyblion iau yn dda. Gwna athrawon ddefnydd da o’r awyr agored ac ardal goedwig yr ysgol, y maent yn ei defnyddio’n dda i gyflwyno sesiynau dysgu awyr agored pwrpasol. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n werth chweil at ymgysylltiad a lles disgyblion.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r heriau a osodir gan athrawon. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn ffordd bwrpasol a pherthnasol, ac yn ymestyn dysgu disgyblion trwy brofiadau uniongyrchol. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu disgyblion. Un o gryfderau arbennig yr ysgol, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen, yw ansawdd yr holi gan staff i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion iau i siarad ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd nesaf mewn stori, yn eu barn nhw, ac yn sicrhau bod pob un o'r plant yn cael cyfle i ateb. Mae pob un o'r staff yn fodelau iaith da yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn drylwyr ac yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda trwy weithgareddau diddorol a chynlluniedig. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen i ddatblygu eu medrau ysgrifennu a rhif wrth actio fel pobyddion arbenigol i helpu Samuel Pepys i wneud y bara sy'n blasu orau.

Mae staff yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn rhoi amser yn rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud. Gwna'r rhan fwyaf o athrawon ddefnydd effeithiol o ddeilliannau asesiadau i nodi unigolion a grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth, er enghraifft trwy strategaethau a grwpiau ymyrraeth.

Mae llawer o weithgareddau sy'n datblygu gwybodaeth disgyblion a'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r 'diwrnod Cymraeg arbennig' ('super Welsh day'), a gynhelir unwaith y tymor, wedi cynyddu gwybodaeth disgyblion am gestyll a phrif drefi Cymru a ble maent wedi eu lleoli. Mae gweithgareddau llythrennedd yn datblygu'r ddealltwriaeth hon ymhellach, a'u synnwyr o'r hyn y mae bod yn Gymro/yn Gymraes yn ei olygu. Er enghraifft, wrth ysgrifennu'n greadigol am wylio Cymru'n chwarae rygbi rhyngwladol, mae disgybl yn ysgrifennu, 'Through a window to Wales I can feel the bone shaking sensation of the fans chanting for their team in the Principality stadium. ' Mae cyfleoedd i ddisgyblion ymweld â mannau o ddiddordeb lleol, fel Castell y Fflint a chymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol, yn cefnogi cwricwlwm yr ysgol yn dda ac yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol a threfnus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Gwna'r ysgol ddefnydd da o ddeilliannau asesiadau mewn pynciau craidd a meysydd dysgu i gynllunio'r camau dysgu nesaf ar gyfer disgyblion. Maent yn trefnu cymorth ymyrraeth perthnasol ar gyfer unigolion neu grwpiau o ddysgwyr gan ddefnyddio cynorthwywyr addysgu hyfforddedig a hynod effeithiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion, y mae gan lawer ohonynt anghenion dysgu penodol, yn gwneud cynnydd da o ran eu cynlluniau addysgol unigol. Un o'r nodweddion hynod gryf ynglŷn â gwaith yr ysgol yw ei hymrwymiad i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym o ganlyniad i ymyriadau heb yr angen iddynt dderbyn y rhain

am gyfnodau estynedig. Mae partneriaethau'r ysgol gyda llawer o asiantaethau allanol yn gwella profiadau disgyblion yn llwyddiannus ac yn cefnogi addysgu a dysgu effeithiol yn dda. Mae'r ysgol yn llwyddo i roi gwybod i rieni am fentrau newydd. Mae'n trefnu nosweithiau sy'n llawn gwybodaeth i rieni er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sut gallant gefnogi dysgu eu plant.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd â threfniadau cadarn i gefnogi lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ystod o ymyriadau effeithiol, fel therapi chwarae, rhaglenni cymorth llythrennedd emosiynol a sesiynau cwnsela. Mae disgwyliadau cyson uchel a rheolaeth effeithiol gan staff ar ymddygiad yn sicrhau safonau uchel o gwrteisi, parch ar y ddwy ochr ac ymddygiad da ymhlith disgyblion.

Ceir strategaethau priodol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys gwobrau a dathliadau wythnosol a thymhorol ar gyfer presenoldeb uchel. Mae llythyrau diweddaru at rieni bob hanner tymor ac olrhain absenoldeb parhaus yn ofalus yn sicrhau bod ffocws parhaus o hyd ar bresenoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y mesurau hyn ac mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd cefnogol i ddisgyblion lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn saff. Mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil o fewn y cwricwlwm i drafod pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn darparu siop ffrwythau y mae disgyblion yn manteisio arni'n llawn amser egwyl. Mae amrywiaeth o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol yn hyrwyddo ffitrwydd disgyblion yn dda, fel clybiau amlchwaraeon, pêl-droed, hwyl ffitrwydd a ioga. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ei bod yn bwysig cadw'n heini.

Mae'r ysgol yn gwrando'n dda ar safbwyntiau ei disgyblion trwy ddarparu llawer o gyfleoedd iddynt gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau. Mewn cyfarfod llywodraethwyr diweddar, rhannodd y cyngor ysgol ei safbwyntiau'n llwyddiannus ar ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi gwag staff.

Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn Cristnogaeth ac ymwybyddiaeth o grefyddau'r byd. Mae athrawon yn darparu gwersi a gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer disgyblion i hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol sy'n addysgu disgyblion am werthoedd craidd goddefgarwch, parch a phwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd, a sut maent yn effeithio ar bobl eraill.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu empathi ac elusengarwch. Er enghraifft, mae codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyflawniad i ddisgyblion. Mae ymweliadau preswyl â Glan-llyn yn datblygu hyder a medrau cymdeithasol disgyblion hŷn yn llwyddiannus. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol gref sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae hyn yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo hapusrwydd, lles

a chyflawniad disgyblion yn dda iawn. Mae'r uwch dîm rheoli yn ei chefnogi hi'n effeithiol. Maent yn llwyddo i feithrin disgwyliadau uchel ymhlith y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae'r ethos gofalgar a chynhwysol cryf yn yr ysgol yn ategu eu gwaith. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli i ffurfio tîm cryf.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr ar gyfer pob aelod o staff. Mae'r rhain yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus, a chânt effaith gadarnhaol ar waith unigolion a gwaith dosbarth. Er enghraifft, mae pob aelod o staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae ffocws pwrpasol ar annog dysgwyr i gyflawni safonau da.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau buddiol ag ystod eang o bartneriaid allanol sy'n datblygu lles a safonau disgyblion yn effeithiol. Mae'n datblygu i fod yn gymuned ddysgu gref trwy weithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill o wahanol glystyrau ar amrywiaeth o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ansawdd yr adborth i ddisgyblion, datblygu medrau mathemategol disgyblion a gwella profiadau dysgu. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol iawn ar fedrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion yn yr ysgol a'u gallu i gymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae ystod dda o brosesau i werthuso gwaith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perthnasol, craffu ar waith disgyblion, adolygiadau cynnydd disgyblion bob hanner tymor ac arsylwadau ffurfiol o wersi. At ei gilydd, trwy fonitro gwaith, caiff arweinwyr ac athrawon drosolwg defnyddiol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'n rhoi darlun clir i arweinwyr o'r meysydd darpariaeth hynny sydd angen eu gwella. Er enghraifft, mae'n nodi'r angen i wella adborth i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'n llai llwyddiannus o ran nodi'r hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda a'r hyn nad ydynt yn ei wneud cystal. Er enghraifft, mae monitro gwersi yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar ddarpariaeth a dim digon ar yr effaith a gaiff gwaith ar gynnydd neu ddeilliannau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i fywyd a gwaith yr ysgol, ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n frwdfrydig. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn dda am waith yr ysgol ac effaith mentrau newydd, gan gynyddu eu dealltwriaeth o effaith camau gwella, a'r effaith a gânt ar ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn casglu digon o dystiolaeth uniongyrchol ar waith yr ysgol i allu gofyn cwestiynau heriol i uwch arweinwyr.

Mae amgylchedd yr ysgol yn ysgogol ac mae arddangosfeydd yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn llwyddiannus. Mae lefel briodol o staff ac adnoddau o safon dda sy'n diwallu anghenion y cwricwlwm yn dda. Gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi addysgu a dysgu. Er enghraifft, defnyddir cynorthwywyr addysgu medrus yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion amrywiol a grwpiau amrywiol o ddisgyblion. Mae athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu ar y cyd yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau diddorol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau ariannol yn ddoeth i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'r rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn unol â'u mannau cychwyn. Mae'n galluogi cymorth ariannol i ariannu gwersi ffidil a gwersi canu peripatetig, ymweliadau preswyl â lleoedd fel Pentrellyncymer, ac ar gyfer cyflog cynorthwywyr addysgu sy'n darparu dysgu a chymorth emosiynol o ansawdd da. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les a deilliannau disgyblion ac mae'n ehangu eu profiadau a'u medrau.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno strategaethau effeithiol i ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Siarter Iaith. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion a'u medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019